# <u>Cyngor Cymuned Llandderfel.</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Chwefror 1af 2022 dros Zoom. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Eilir Rowlands, Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Bethan Thomas, Eifion Davies, Dewi Pritchard, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Evans.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Ionawr a chafwyd yn gywir.**

**<u>ii) Datgan Buddiant.</u>**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**<u>iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.</u>**

<u>a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwyn canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-</u>
i) Cwyn am gyflwr y llwybr troed ger pentref Llanfor - roedd asiant yr Adran Cefnffyrdd am drafod y mater gyda'r tirfeddiannwr.
ii) Tyllau yn y ffordd rhwng mynedfa Cynlas a chroesffordd Cefnddwysarn - yn dilyn arolwg o'r ffordd gan yr Adran Cefnffyrdd nid oedd unrhyw ddiffygion peryglus wedi dod i'r amlwg ond mi fyddant yn cadw golwg ar y lleoliad.
iii) Roedd yr Adran Llwybrau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y byddant yn gwneud gwelliannau i'r bont ar lwybr Gors y Sarnau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

<u>b) Mynwent Llandderfel.</u>
Roedd sied y fynwent wedi cael ei chlirio ond roedd y clerc yn dal i aros am bris yr arwydd newydd.

<u>c) Cae chwarae Frongoch.</u>
Oherwydd cyflwr y safle roedd y contractwyr am ail gydio yn y gwaith pan fyddai'r tywydd yn gwella.

<u>ch) Lloches bws i bentref Frongoch.</u>
Cymeradwywyd pris y contractwyr am osod y pad concrid. Cafwyd cadarnhad y byddai'r lloches i gael ei osod os fewn yr wythnosau nesaf.

**<u>iv) Gohebiaeth.</u>**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

<u>a) Amrywiol</u>
i) Parc Cenedlaethol Eryri - Gweithdai Zoom 'Sut mae cael Twristiaeth Gynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri', 7/2/22.
ii) Parc Cenedlaethol Eryri – Nodyn briffio ar yr economi ymweld yng Ngwynedd ac Eryri.
iii) Dŵr Cymru - diweddariad ar y gwaith diogelwch ar gronfa ddŵr Llyn Tegid.
iv) Cyngor Gwynedd - Nodyn Briffio ar yr Economi ymweld yng Ngwynedd ac Eryri.

**<u>v) Ceisiadau Cynllunio.</u>**

a) Derbyniwyd y ceisiadau canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-
NP5/63/274A- Adeiladu garej. Sŵn y Dŵr, Glan Tryweryn, Frongoch.
NP5/63/274B– Adeiladu sied. Sŵn y Dŵr, Glan Tryweryn, Frongoch.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

**vi) Materion Ariannol.**

a) Penodi Archwiliwr Mewnol 2021-22.

Cytunwyd yn unfrydol i benodi Uned Archwilio Fewnol Cyngor Gwynedd i archwilio'r cyfrifon. Gofynnwyd i'r clerc anfon y llythyr ymrwymiad arferol iddynt.

b) Trefniadau talu ar-lein.

Adroddodd y clerc fod popeth wedi ei osod i fyny ar-lein a chytunwyd i dalu drwy'r dull yma o hyn ymlaen pan yn bosib.

c) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Pethe Penllyn (hysbyseb), Zoom (tanysgrifiad – ad-daliad i'r clerc), Cwmni Ciltalgarth (torri glaswellt y mynwentydd).

**vii) Materion lleol.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

i) Cyflwr un o'r coed ar y ffordd rhwng yr hen gapel a'r pentref, Glanrafon.
ii) Canghennau'r coed yn gwyro i'r ffordd ar Bont Cletwr.
iii) Sbwriel ar ochr yr A494 rhwng Bryn Awelon a'r Sarnau.
iv) Cyflwr y ffordd a oedd yn rhedeg wrth ymyl y maes parcio newydd yn Ysgol Bro Tryweryn.
v) Cais am ddiweddariad ynglŷn â'r cwynion am y llwybrau troed yng Nghefnddwysarn.
vi) Cais am ddiweddariad ynglŷn â'r addewid i wneud arolwg o'r B4501 yng Nghwmtirmynach.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fercher, Mawrth 2il am 7.00 y.h. yn Neuadd Bro Derfel.



Arwyddwyd: ………………………………………….          Dyddiad: …………………………………..